

Bil Hawl i Dai Digonol (Cymru)

Deddf i wneud darpariaeth i effeithio ymhellach ar yr hawl i dai digonol yng Nghymru fel y nodir yn Erthygl 11(1) o Gyfamod y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol

a Diwylliannol ac at ddibenion cysylltiedig.

RHAN 1 – YR HAWL I DAI DIGONOL AC

AWDURDODAU PERTHNASOL

Yr Hawl i Dai Digonol

- Yn y Ddeddf hon, ystyr yr 'hawl i dai digonol' yw'r hawl i dai digonol a warentir gan Erthygl 11 o Gyfamod y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (y 'Cyfamod'), fel y nodir yn Atodlen 1 y Ddeddf hon.
- Ar ddechrau'r Ddeddf hon, bydd yr hawl i dai digonol yn rhan o gyfraith Cymru.

Awdurdodau Perthnasol

- Awdurdod perthnasol at ddiben y Ddeddf hon yw:
 - Gweinidogion Cymru wrth arfer swyddogaethau tai.
 - Awdurdodau tai lleol fel y'u diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wrth weithredu swyddogaethau o dan y Ddeddf honno.

RHAN 2 – HYRWYDDO'R HAWL I DAI DIGONOL

Y Ddyletswydd Sylw Dyledus

- Rhaid i awdurdod perthnasol, wrth arfer unrhyw swyddogaeth a grybwyllir yn adran 3(a) neu 3(b), roi sylw dyledus i'r hawl i dai digonol.
- Rhaid i awdurdod perthnasol, wrth roi sylw dyledus fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf hon, ystyried:
 - Y Rhaglith i'r Cyfamod.
 - Unrhyw Sylw Cyffredinol perthnasol a roddir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol ('Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig').
 - Unrhyw Sylw neu Argymhelliad Terfynol perthnasol a wneir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar ôl archwiliad Gwladwriaeth sy'n Barti y DU o dan Ran II o'r Cyfamod.

Cynllun Hawliau Tai

- Rhaid i Weinidogion Cymru wneud Cynllun Hawliau Tai (y 'Cynllun') yn nodi'r trefniadau y maent wedi'u gwneud, neu'n bwriadu eu gwneud, at ddibenion cyflawni

eu dyletswydd o dan adran 4.

7. Rhaid i'r Cynllun gael ei wneud, ei gyhoeddi a'i osod gerbron Senedd Cymru ddim hwyrach na 6 mis o'r dyddiad y daw'r Ddeddf hon i rym.

8. Gall Gweinidogion Cymru ail-wneud y Cynllun ar unrhyw adeg ond rhaid iddynt adolygu, ac os ydynt yn ei ystyried yn briodol, ail-wneud y Cynllun cyn pen tair blynedd o'r dyddiad y cyhoeddir y Cynllun cyntaf ac unrhyw Gynllun dilynol.

a. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ail-wneud y Cynllun ar unrhyw adeg, rhaid iddynt osod y Cynllun wedi'i ail-wneud gerbron Senedd Cymru

9. Cyn llunio neu ail-wneud y Cynllun, rhaid i Weinidogion Cymru:

a. Gyhoeddi drafft o'r Cynllun y maent yn bwriadu ei wneud.

b. Ymgynghori â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar y Cynllun maent yn bwriadu ei wneud.

c. Ymgynghori ag unrhyw randdeiliaid eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.

10. Gall y Cynllun gynnwys unrhyw faterion y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol, ond rhaid iddo gynnwys gweithdrefn ar gyfer cynnal Asesiad Effaith Tai ar unrhyw gynnig am ddeddfwriaeth neu bolisi neu ddyraniad cyllidebol sy'n debygol o fod ag effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar dai yng Nghymru.

a. Gellir cynnal Asesiad Effaith Tai yn unol â'r adran hon

ar yr un pryd ag unrhyw asesiad effaith arall y mae Gweinidogion Cymru yn ei gynnal a gellir ei integreiddio â'r asesiad hwnnw.

b. Rhaid gosod Asesiad Effaith Tai ar gynnig am ddeddfwriaeth

gydag unrhyw Fil y mae Gweinidogion Cymru yn ei osod gerbron Senedd Cymru, a gall fod ar ffurf asesiad effaith integredig.

Adrodd ar Gynnydd

11. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod Adroddiad Cydymffurfiaeth gerbron Senedd Cymru, ar sut y maent wedi cydymffurfio â'u dyletswydd o dan adran 4.

a. Gellir cyhoeddi Adroddiad Cydymffurfiaeth fel rhan o unrhyw adroddiad mae

Gweinidogion Cymru yn ei gyhoeddi ar dai yng Nghymru, neu fel adroddiad ar wahân, a rhaid ei osod gerbron Senedd Cymru.

b. Rhaid cyhoeddi'r Adroddiad Cydymffurfiaeth cyntaf ddim hwyrach na 3 blynedd ar ôl

i'r ddyletswydd ddod i rym o dan adran 4, ac o bryd i'w gilydd wedi hynny, ar neu cyn diwedd pob cyfnod olynol o dair blynedd o ddyddiad unrhyw

Adroddiad Cydymffurfiaeth blaenorol.

RHAN 3 – ATAL DEDDFAU SY’N ANGHYDNAWS Â’R

HAWL I DAI DIGONOL A GWNEUD IAWN

Deddfau Anghyfreithlon

12. Mae'n anghyfreithlon i awdurdod perthnasol, wrth arfer swyddogaeth ddatganoledig, weithredu mewn modd sy'n anghydawns â'r hawl i dai digonol.

13. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae gweithred fel y crybwyllir yn adran 12 yn cynnwys methu â gweithredu.

14. Ni fydd unrhyw awdurdod perthnasol sy'n cael ei orfodi i weithredu mewn modd sy'n anghydawns â'r hawl i dai digonol trwy ddeddfwriaeth sylfaenol, yn cyflawni gweithred anghyfreithlon o dan adran 12.

15. Y llys sydd i benderfynu a yw awdurdod perthnasol yn cyflawni gweithred anghyfreithlon ai peidio.

Gorfodaeth

16. Gall unrhyw unigolyn sy'n honni ei fod yn unigolyn yr effeithir arno gan weithred anghyfreithlon o dan adran 12, ddwyn achos gerbron llys neu driwlyn neu ddibynnu ar y weithred anghyfreithlon honedig fel amddiffyniad mewn unrhyw gamau yn eu herbyn gan awdurdod perthnasol.

17. Lle bydd achos a ddygir o dan y Rhan hon yn cael ei drin drwy adolygiad barnwrol, mae'r unigolion a restrir isod â statws i ddwyn achos:

a. Unrhyw unigolyn yr effeithir arno neu'n debygol o gael ei effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y weithred anghyfreithlon honedig.

b. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

c. Unrhyw unigolyn neu gorff sydd â diddordeb digonol ym mhwnic yr achos

18. Yn ogystal ag unrhyw fater arall y mae'n ei ystyried yn berthnasol, rhaid i lys y gelwir arno i benderfynu a yw awdurdod perthnasol wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon, ystyried y materion hynny a nodir isod:

a. Unrhyw Sylw Cyffredinol perthnasol a gyhoeddir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig.

b. Unrhyw Sylw neu Argymhelliad Terfynol perthnasol a wneir gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar ôl archwiliad Gwladwriaeth sy'n Barti y DU o dan Ran II o'r Cyfamod.

c. Effaith y weithred anghyfreithlon honedig ar y rhai yr effeithir arnynt.

d. A yw'r weithred neu'r esgeulustra yr honnir ei fod yn weithred anghyfreithlon yn

gymesur, gan ystyried yr holl faterion perthnasol, gan gynnwys budd y cyhoedd yng Nghymru.

Gwneud Iawn a Datrysiadau Deddf Anghyfreithlon

19. Mewn perthynas ag unrhyw weithred y mae'r llys yn canfod ei bod, neu y byddai'n weithred anghyfreithlon, caiff roi rhyddhad i'r unigolyn yr effeithir arno gan y weithred anghyfreithlon, yr ystyrir yn gyfiawn ac yn briodol.

20. Wrth roi rhyddhad o dan adran y Ddeddf hon, caiff llys roi:

a. Unrhyw ryddhad, cam unioni, neu orchymyn sydd o fewn pŵer llys i'w wneud mewn trafodion sifil yng Nghymru a Lloegr.

b. Iawndal am weithred anghyfreithlon er mwyn rhoi boddhad cyfiawn i'r dioddefwr.

21. Pan fydd llys yn fodlon y bydd iawndal o dan y Ddeddf hon yn rhoi boddhad cyfiawn i'r dioddefwr, rhaid iddo ddyfarnu iawndal, ni waeth a yw unrhyw ryddhad neu gam unioni arall yn cael ei ystyried neu ei ddyfarnu, oni bai bod rhesymau da a chryf pam na ddylid rhoi dyfarniad o'r fath.

Atodlen 1

Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, wedi'i fabwysiadu a'i agor ar gyfer ei lofnod, cadarnhau a derbyn trwy benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 2200A (XXI) 16 Rhagfyr 1966 a dod i rym 3 Ionawr 1976, yn unol ag erthygl 27

Erthygl 11

1. Mae'r Gwladwriaethau sy'n Bartïon i'r Cyfamod presennol yn cydnabod hawl pawb i gael safon byw ddigonol iddo'i hun a'i deulu, gan gynnwys bwyd, dillad a thai digonol, ac i wella amodau byw yn barhaus. Bydd y Gwladwriaethau sy'n Bartïon yn cymryd camau priodol i sicrhau y gwireddir yr hawl hon, gan gydnabod i'r perwyl hwn, bwysigrwydd hanfodol cydweithredu rhyngwladol yn seiliedig ar gydsyniad rhydd.